



## Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Gymunedol Meidrim

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae ethos cyfeillgar yn bodoli yn Ysgol Meidrim. Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn naws gartrefol a chynhwysol yr ysgol. Mae pawb yn cael eu parchu ac mae bron bob disgybl yn ofalgar o'i gilydd ac yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion eu cyfoedion, yn enwedig y disgyblion ieuengaf. Maent yn cyd-chwarae'n hapus gyda'i gilydd ac mae'r staff yn eu hannog i fod yn gwrtais a chyfeillgar. O ganlyniad, mae ymddygiad y disgyblion yn gyson dda.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth briodol o rai o gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau gwella. Fodd bynnag, dros amser, nid yw arweinwyr wedi defnyddio canfyddiadau'r prosesau hyn yn ddigon trylwyr i fynd i'r afael ag elfennau pwysig o ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau'r disgyblion. Er enghraifft, mae nifer o'r argymhellion yr arolygiad blaenorol yn parhau i fod yn faterion pwysig i'w gwella i'r ysgol.

Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig o'u manau cychwyn, yn enwedig yn eu medrau llythrennedd a rhifedd. Ar y cyfan, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau addas i ennyn diddordeb disgyblion. Er hyn, nid ydynt yn cynllunio'n ddigon pwrpasol er mwyn sicrhau cynnydd adeiladol ym medrau'r disgyblion dros amser. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn cael eu herio'n briodol ar draws y meysydd dysgu.

Mae gan staff berthynas waith ofalgar â'r disgyblion. Maent yn darparu adborth priodol i gefnogi disgyblion wrth eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael cyfleoedd digon cyson i ymateb i'r adborth er mwyn gwella eu gwaith a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu.

Mae trefniadau'r ysgol i gefnogi disgyblion ag anghenion ychwanegol yn addas. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol â nifer o asiantaethau amrywiol er mwyn cefnogi anghenion y disgyblion yn briodol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

Rydym wedi gwneud 4 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

- A1 Mynd i'r afael â'r mater diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad
- A2 Diffinio a datblygu cyfrifoldebau arweinwyr er mwyn gweithredu'n fwy strategol gan sicrhau bod prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn ddigon trylwyr i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella
- A3 Cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwysu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn fwriadus ar draws y meysydd dysgu dros amser, gan osod her briodol i sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni hyd eithaf eu gallu
- A4 Sicrhau bod adborth athrawon a chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymateb iddo yn cael ei weithredu'n fwriadus i'w cefnogi i wella eu gwaith a chodi safonau

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEF o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Dyma'r lefel ddwysaf o weithgarwch dilynol statudol. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu.

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r [adroddiad llawn](#).



© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/06/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.